Chairman's Annual Report 2017 – 2018

We set out this year with a "Business Plan" that we felt could be achieved with the resources available.

Engaging with Older People and Groups that Represent Them.

If you have been following our Facebook page or the website, you will have noticed that we have been "Out and About This Summer". We have visited Zion Methodist Church (Fleur De Lis), Woodfieldside OAP Ass., Newbridge Tabernacle Church Luncheon Club, Stroke Group and a group course (Mind).

We are grateful to the Community Connectors in the Council for the help they provide in identifying groups that they think would welcome learning more about the Forum and what we have to offer.

As well as giving presentations to such groups, we have been able to offer practical help. An access path to the Woodfieldside hall had become overgrown with brambles. We asked the Council to help by cutting it back, which they duly did.

Newbridge Tabernacle wanted to put their sermons onto their website but did not have the technical knowledge to achieve this. We have worked with them to get this done. In addition, we continue to work closely with the Carers group in CCBC.

We extended invitations to a number of groups to attend our meeting with the Government Secondee (Rachel Lewis) who is seeking views on the next phase of the strategy for older people.

A major project to help Cymru Older People's Alliance (COPA), to communicate across Wales, was to design and build a website for them. This went live for their AGM in October.

CYMRU Older People's Alliance
YOUR VOICE : EICH LLAIS
Cynghrair Pobl Hyn CYMRU

Council / Forum Interaction

A number of discussions have been held with the Director of Social Services (Dave Street) and Older People's Champion (Cllr Barbara Jones). We have recognised that by being aware of our respective objectives that we can ensure that we work positively to the same ends where possible.

A particularly good example of this positive interaction was the Council enthusiastically adopting the proposal from the Forum to develop a programme along the lines of the "Chatty Café". We are currently working with a team from the Council to develop the idea.

However, not all our interactions are so positive. We were concerned at the published Well-being plan, not least because of the length and complexity of the report. Nevertheless, we were allowed to express our concerns in a face-to-face meeting. The ultimate outcome has been the inclusion of Forum Committee members on 3 of the detailed project teams.

Isolation and Loneliness

Isolation and loneliness is of national concern, although not exclusively among the elderly.

We have been working in partnership with the Local Heath Board co-ordinator for the Ffrind i mi/Friend of mine initiative. This culminated in producing a double page spread, written by them, in our Summer 2018 Newsletter.

Community

The Council have been keen to point out that it will not be possible for them to fund all the services that they have carried out historically as austerity continues to bite. They are keen for residents to look for things that they can do rather than call the Council.

So, we were very keen to support our Secretary and his wife in their endeavours to improve the environment and community spirit in their Court in Lansbury Park. To date we have hosted 2 events in the locality.

Important News and Consultations

There have been a number of significant events that affect older people since the last AGM. These have been reported in detail on our website:

- Consultation on Concessionary Bus Fares (and Consultation outcome report)
- The Caerphilly We Want: Service Board Vision
- Older People's Rights
- Dementia Action Plan for Wales (2018 -2022)

We continue to work to expand the awareness of Caerphilly Borough residents to the existence of the Forum and our purpose. We will continue to reach out to more groups around the County next year. Hopefully, it will be possible to recruit others to help us in the coming year; the more help we have the more we can do.

Ralph Stevens

Chairman

Caerphilly County Borough 50+ Forum

Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd 2017 - 2018

Fe wnaethom ni fwrw ati eleni gyda "Chynllun Busnes" y teimlwyd y gellid ei gyflawni gyda'r adnoddau oedd ar gael.

Ymgysylltu â Phobl Hŷn a Grwpiau sy'n eu Cynrychioli.

Os ydych chi wedi bod yn dilyn ein tudalen Facebook neu'r wefan, byddwch wedi sylwi ein bod wedi bod "Allan Ar Grwydr yr Haf Hwn". Rydym wedi ymweld ag Eglwys Fethodistaidd Seion (Trelyn), Cymdeithas Pobl Hŷn Maes-y-coed, Clwb Cinio Eglwys y Tabernacl Trecelyn, Grŵp Strôc a chwrs grŵp (Mind).

Rydym yn ddiolchgar i'r Cysylltwyr Cymunedol yn y Cyngor am y cymorth y maent yn ei ddarparu wrth nodi grwpiau y maen nhw'n credu y byddent yn croesawu dysgu mwy am y Fforwm a beth sydd gennym i'w gynnig.

Yn ogystal â rhoi cyflwyniadau i grwpiau o'r fath, rydym wedi gallu cynnig cymorth ymarferol. Roedd llwybr mynediad i neuadd Maes-y-coed wedi gordyfu gyda mieri. Fe wnaethom ofyn i'r Cyngor helpu trwy ei dorri'n ôl, a dyna wnaethent.

Roedd Tabernacl Trecelyn eisiau rhoi eu pregethau ar eu gwefan ond nid oedd ganddynt y wybodaeth dechnegol i gyflawni hyn. Rydym wedi gweithio gyda nhw i wneud hyn. Yn ogystal, rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r grŵp Gofalyddion yn CBSC.

Fe wnaethom estyn gwahoddiadau i nifer o grwpiau i fynychu ein cyfarfod gyda Secondai'r Llywodraeth (Rachel Lewis) sy'n ceisio barn ar gam nesaf y strategaeth ar gyfer pobl hŷn.

Prosiect mawr i helpu Cynghrair Pobl Hŷn Cymru (CPHC), i gyfathrebu ledled Cymru, oedd dylunio a chreu gwefan ar eu cyfer. Aeth hyn yn fyw ar gyfer eu Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Hydref.

CYMRU Older People's Alliance
YOUR VOICE : EICH LLAIS
Cynghrair Pobl Hyn CYMRU

Rhyngweithio Cyngor / Fforwm

Cynhaliwyd nifer o drafodaethau gyda'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (Dave Street) a'r Hyrwyddwr Pobl Hŷn (Y Cyng. Barbara Jones). Rydym wedi cydnabod, trwy fod yn ymwybodol o'n hamcanion priodol, y gallwn sicrhau ein bod yn gweithio'n bositif i'r un diben lle bo modd.

Enghraifft arbennig o dda o'r rhyngweithio cadarnhaol hwn oedd pan fu i'r Cyngor fabwysiadu'n frwd y cynnig gan y Fforwm i ddatblygu rhaglen ar hyd trywydd "Chatty Café". Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda thîm o'r Cyngor i ddatblygu'r syniad.

Fodd bynnag, nid yw ein holl ryngweithiadau mor gadarnhaol. Roeddem yn pryderu am y cynllun Lles a gyhoeddwyd, yn enwedig oherwydd hyd a chymhlethdod yr adroddiad. Serch hynny, cawsom fynegi ein pryderon mewn cyfarfod wyneb yn wyneb. Y canlyniad pennaf oedd cynnwys aelodau'r Pwyllgor Fforwm ar 3 o'r timau prosiect manwl.

Unigedd ac Unigrwydd

Mae unigedd ac unigrwydd yn bryder cenedlaethol, er nid yn unig ymhlith yr henoed.

Rydym wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â'r cydlynydd Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer y fenter Ffrind i mi/Friend of mine. Arweiniodd hyn at gynhyrchu taenlen dudalen ddwbl, a ysgrifennwyd ganddynt, yn ein Cylchlythyr Haf 2018.

Cymuned

Mae'r Cyngor wedi bod yn awyddus i nodi na fydd yn bosib iddynt ariannu'r holl wasanaethau y maent wedi'u cynnal yn hanesyddol gan fod cyni cyllidol yn parhau'n ystyriaeth. Maent yn awyddus i drigolion edrych am bethau y gallant eu gwneud yn hytrach na galw'r Cyngor.

Felly, roeddem yn awyddus iawn i gefnogi ein Ysgrifennydd a'i wraig yn eu hymdrechion i wella'r amgylchedd ac ysbryd cymunedol yn eu Llys ym Mharc Lansbury. Hyd yn hyn rydym wedi cynnal 2 ddigwyddiad yn yr ardal.

Newyddion Pwysig ac Ymgynghoriadau

Bu nifer o ddigwyddiadau arwyddocaol sy'n effeithio ar bobl hŷn ers y CCB diwethaf. Adroddwyd ar y rhain yn fanwl ar ein gwefan:

- Ymgynghori ar Brisiau Teithiau Bws Consesiynol (ac adroddiad canlyniad yr Ymgynghoriad)
- Gweledigaeth Bwrdd Gwasanaeth: Y Gaerffili a Garem
- Hawliau Pobl Hŷn
- Cynllun Gweithredu Dementia i Gymru (2018 -2022)

Rydym yn parhau i weithio i ehangu ymwybyddiaeth trigolion Bwrdeistref Caerffili am fodolaeth y Fforwm a'n pwrpas. Byddwn yn parhau i geisio cysylltu â rhagor o grwpiau o gwmpas y Sir y flwyddyn nesaf. Gobeithio y bydd yn bosibl recriwtio eraill i'n helpu yn y flwyddyn sydd i ddod; y mwyaf o gymorth y cawn y mwyaf y gallwn ei wneud.

Ralph Stevens

Cadeirydd

Fforwm 50+ Cyngor Bwrdeistref Caerffili